GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board


## Nawr a Nesaf


Mae bwrdd nawr a nesaf yn gymorth gweledol syml iawn. Mae'n ddelwedd gyda 'nawr' ar y chwith a 'nesaf' ar y dde a lle i lun o beth sy'n digwydd nawr a nesaf.

Bydd plant sydd ag anawsterau cyfathrebu neu ganolbwyntio yn ei chael hi'n ddefnyddiol i ddeall beth sy'n digwydd. Gall defnyddio'r strategaeth Nawr a Nesaf leihau'r pwysau cyfathrebu ar blentyn gan ei fod yn gallu defnyddio gwybodaeth weledol, yn hytrach na siarad yn unig.

### Gwneud y Bwrdd:

- Gwnewch y bwrdd mor blaen â phosibl gan ddefnyddio lliwiau syml, trawiadol yn unig (gweler y templed a atodwyd).
- Lamineiddiwch y bwrdd ac ychwanegwch ddau fan felcro i atodi ffotograffau
- Argraffwch a lamineiddiwch ffotograffau o ystod o weithgareddau sydd ar gael i'r plentyn yn y lleoliad.




**Byddwch yn barod i ddyfalbarhau am ychydig wythnosau nes bod y plentyn yn deall cysyniad y bwrdd 'Nawr a Nesaf' yn llawn.**

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideo isod.**

SCAN ME

https://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi

**Sut?**

**Gwnewch eich llais yn ddiddorol a chadwch yr iaith yn syml.**

**Cadwch yn gyson – defnyddiwch fwrdd Nawr a Nesaf bob amser wrth newid i weithgaredd gwahanol.**

### Defnyddio'r Bwrdd:

- Efallai y bydd rhai plant yn ei chael hi'n anodd dewis o'r holl weithgareddau sydd ar gael, felly gallai fod yn ddefnyddiol cyfyngu eu dewis i 2 neu 3 llun i ddechrau.
- Os yw'r plentyn yn tueddu i ddewis yr un gweithgaredd(au) dro ar ôl tro, tynnwch y llun hwnnw i ffwrdd.
- Fel arall, efallai y bydd angen hoff weithgaredd ar rai plant fel yr 'Yna', gan weithredu fel gwobr ysgogiadol.
- Helpwch y plentyn i dynnu'r llun oddi ar y bwrdd ar ôl iddo orffen y gweithgaredd – bydd hyn yn ei helpu i sylweddoli bod y gweithgaredd wedi dod i ben (i ddechrau bydd angen cymorth llaw dros law arnyn nhw i wneud hyn)
- I blant sy'n cael trafferth arbennig yn y cyfnod pontio, efallai y byddai'n ddefnyddiol defnyddio amserydd tywod i'w helpu i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio.

**Symud ymlaen…**

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod yn hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch gyflwyno rhai **cyfarwyddiadau syml.** Cadwch nhw **yn fyr** ac **yn glir**, byddai'n syniad da lleihau'r iaith a defnyddio geiriau allweddol unigol.